**RHYBUDD O WNEUD**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (GWAHANOL FFYRDD YN SIR Y FFLINT) (Terfyn Cyflymder 30 mya) (Diwygiad 1) 2024**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 12 Medi 2024 drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a), 84 a Rhan IV o Atodlen 9 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (GWAHANOL FFYRDD YN SIR Y FFLINT) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2023 yng ngeiriau pumed Atodlen y Gorchymyn hwnnw:-

**A5026 HOLWAY ROAD, TREFFYNNON:** o bwynt 680 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Saith Aelwyd Park i bwynt 52 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Carmel Road

yn cael ei ddileu, a'r canlynol yn cael ei roi yn ei le:

**A5026 HOLWAY ROAD, TREFFYNNON:** o bwynt 640 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Saith Aelwyd Park i bwynt 52 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Carmel Road.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 12 Medi 2024, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

Dyddiedig yr 13 diwrnod o fis Medi 2024

**Dyddiedig** **12 Medi** **2024**

**Cyngor Sir y Fflint**
**Gorchymyn (SAWL FFORDD YN SIR Y FFLINT)**
**(Terfyn Cyflymder 30 mya) (Diwygiad 1) Cyngor Sir y Fflint 2024**

**<u>GORCHYMYN</u>**

**fel y nodir oddi mewn**

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Neuadd y Sir**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 6NF**

**Cyngor Sir y Fflint**
**Gorchymyn (SAWL FFORDD YN SIR Y FFLINT)**
**(Terfyn Cyflymder 30 mya) (Diwygiad 1) Cyngor Sir y Fflint 2024**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “y Cyngor”) wrth ddefnyddio’i bwerau dan Adran 82 (2) (a) ac 84 a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel “Deddf 1984”) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Daw Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (FFYRDD AMRYWIOL O FEWN SIR Y FFLINT) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2023 i rym fel bod y geiriau ym mhumed Atodlen y Gorchymyn hwnnw :-

   **A5026 HOLWAY ROAD, TREFFYNNON:** o bwynt 680 metr i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd â Saith Aelwyd Park i bwynt 52 metr i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd â Carmel Road.

   yn cael ei ddileu, a'r canlynol yn cael ei roi yn ei le:

   **A5026 HOLWAY ROAD, TREFFYNNON:** o bwynt 640 metr i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd â Saith Aelwyd Park i bwynt 52 metr i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd â Carmel Road.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongliad y Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

4. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2024 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (FFYRDD AMRYWIOL O FEWN SIR Y FFLINT) (Terfyn Cyflymder 30mya) (Diwygiad 1) 2024

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR** )
**SIR Y FFLINT** ar y 12 )
diwrnod hwn o Medi 2024 ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**~~UWCH GYFREITHIWR~~**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**~~PRIF SWYDDOG (LLYWODRAE~~THU)**

**Gorchymyn (SAWL FFORDD YN SIR Y FFLINT)(Terfyn Cyflymder 30 mya) (Diwygiad 1) CYNGOR SIR Y FFLINT 2023**

**<u>Datganiad o Resymau dros Gynnig Gwneud y Gorchymyn</u>**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd yn cywiro pellter y ffordd wedi'i gynnwys yn Atodlen 5 o Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (SAWL FFORDD YN SIR Y FFLINT) (Terfyn Cyflymder 30mya) 2023.

**Ceir manylion am y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn Drafft.**

Dyddiedig yr 19eg diwrnod o fis Gorffennaf 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF